

Dŵr Dyffryn Dyfrdwy: Prisiau i gartrefi ar gyfer 2011-12

Mae'r ddalen ffeithiau hon yn darparu gwybodaeth am brisiau 2011-12 Dŵr Dyffryn Dyfrdwy i gwsmeriaid. Mae'r wybodaeth wedi ei chodi o gynllun prisiau'r cwmni, yr ydym ni wedi ei chymeradwyo. Mae copi o'r cynllun ar gael gan y cwmni.

Sut mae biliau cartrefi heb fesurydd yn newid

Mae cwsmeriaid heb fesurydd yn talu am eu gwasanaethau drwy gyfuniad o bris sefydlog a phris sy'n dibynnu ar werth ardrethol eu heiddo.



Newidiadau mewn prisiau ar gyfer 2011-12 (yn cynnwys chwyddiant gwerth 4.71%)

	Pris sefydlog % y newid	Pris gwerth ardrethol % y newid	Bil ar gyfer eiddo â gwerth ardrethol o £100 % y newid	Bil ar gyfer eiddo â gwerth ardrethol o £300 % y newid	Cyfartaledd bil heb fesurydd 2011-12 (£)	Newid mewn cyfartaledd bil heb fesurydd 2011-12 (£)
Dŵr (Caer)	7.2	7.2	7.2	7.2	160	10
Dŵr (Wrecsam)	7.2	7.2	7.2	7.2		

Sut mae biliau cartrefi â mesurydd yn newid

Mae biliau â mesurydd yn cynnwys pris sefydlog a phris foliwmrig. Mae'r pris foliwmrig yn dibynnu ar swm y dŵr y mae cwsmer yn ei ddefnyddio.



Newidiadau mewn prisiau ar gyfer 2011-12 (yn cynnwys chwyddiant gwerth 4.71%)

	Pris sefydlog % y newid	Pris foliwmrig % y newid	% newid mewn bil ar gyfer cwsmer yn defnyddio 60m ³ /blwyddyn	% newid mewn bil ar gyfer cwsmer yn defnyddio 160m ³ /blwyddyn	Cyfartaledd bil â mesurydd 2011-12 (£)	Newid mewn cyfartaledd bil â mesurydd (£)
Dŵr (Caer)	1.4	4.6	3.5	4.1	115	5
Dŵr (Wrecsam)	1.4	4.6	3.6	4.1		

Y terfynau pris sy'n gymwys

Bob pum mlynedd rydym yn gosod terfynau ar faint y gall pob cwmni godi ar ei gwsmeriaid. Yn 2009, gosodom derfynau pris ar gyfer 2010-15.

Mae'r tabl isod yn dangos terfynau pris Dŵr Dyffryn Dyfrdwy ar gyfer 2010-15. Dyma'r gyfran y gall y cwmni godi ei bris cyfartalog ar gyfer pob cwsmer. **Gall prisiau unigol godi gan fwy neu lai na'r terfyn cyffredinol.** Golyga hyn y gall bil un cwsmer fod yn wahanol iawn i fil cwsmer arall.

Rydym wedi caniatáu i Dŵr Dyffryn Dyfrdwy godi ei bris cyfartalog cyffredinol ar gyfer ei holl gwsmeriaid (cartrefi a rhai sydd ddim yn gartrefi) gan 5.31% ar gyfer 2011-12. Mae hyn yn cynnwys terfyn pris gwerth 0.6% a chwyddiant gwerth 4.71% Mae'r ffigur ar gyfer chwyddiant wedi ei seilio ar y Mynegai Prisiau Manwerthu ar gyfer y flwyddyn o fis Tachwedd 2009 hyd fis Tachwedd 2010.

Rydym yn gwirio prisiau pob cwmni i wneud yn siŵr nad oes ffafriaeth na gwahaniaethu gormodol ar gyfer unrhyw grŵp o gwsmeriaid.

Terfynau pris Dŵr Dyffryn Dyfrdwy (%) (ac eithrio chwyddiant)

	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	Cyfartaledd ¹ 2010-15
Dŵr	0.6	0.6	0.6	1.0	-0.5	0.5

¹ Y cyfartaledd geometrig yw hwn o'r terfynau pris blyneddol.

Am beth mae'r biliau yn talu

Bydd y terfynau pris yr ydym wedi eu gosod yn galluogi Dŵr Dyffryn Dyfrdwy i wneud y canlynol:

- Buddsoddi bron i £16 miliwn i uwchraddio gwaith trin dŵr Llwyn Onn, fel y gall cwsmeriaid gael eu gwasanaethu gan gyfleuster diogel a dibynadwy.
- Darparu dŵr i gwsmeriaid gyda llai o wastraff drwy adnewyddu 64km o brif bibellau (tua 3% o rwydwaith y cwmni) er mwyn atal cynnydd yn nifer y byrstiau.
- Buddsoddi bron i £1 miliwn er mwyn gwella amddiffynfeydd llifogydd mewn safleoedd echdynnu dŵr ar Afon Dyfrdwy, er mwyn lleihau'r perygl o fethiant mewn gwasanaeth ar gyfer bron i 180,000 o gwsmeriaid. Mae hyn yn dilyn adolygiad gan y cwmni o ba mor agored yw ei safleoedd i lifogydd.

Draeniad dŵr wyneb

Mae cwsmer yn elwa o wasanaeth draeniad dŵr wyneb pan fydd dŵr glaw yn syrthio ar eu heiddo ac yn draenio i garthffosiaeth gyhoeddus. Os gallwch brofi nad ydych yn derbyn y gwasanaeth hwn, gallwch ofyn i'ch darparwr carthffosiaeth am ostyngiad yn eich bil carthffosiaeth.

Problemau i dalu eich bil

Dylai unrhyw gwsmer sy'n cael problemau i dalu ei filiau dŵr a charthffosiaeth gysylltu â'r cwmni cyn gynted â phosibl. Mae Dŵr Dyffryn Dyfrdwy yn cynnig ystod o ddewisiadau talu hyblyg, y gall un ohonynt efallai fod yn addas i'ch amgylchiadau unigol. Os, fodd bynnag, na allwch ddod i gytundeb â'r cwmni ynglŷn â chynllun talu addas, gallwch gysylltu â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr yng Nghymru ar 0845 707 8267. Mae'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn cynrychioli cwsmeriaid dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr. Mae'n annibynnol ar y cwmnïau dŵr a ninnau.

Newid i gyflenwad gyda mesurydd

Gallai cwsmeriaid heb fesurydd sydd ddim yn defnyddio llawer o ddŵr, neu sy'n byw mewn eiddo gyda gwerth ardrethol uchel, arbed arian ar eu biliau dŵr drwy newid i fesurydd. Bydd eich cwmni dŵr yn gallu dweud wrthyfch faint y gallech ei arbed.

Mae gan bob cwsmer cartref yr hawl i gael mesurydd wedi ei osod am ddim. Gall cwsmeriaid ddychwelyd i daliadau heb fesurydd os ydynt yn gwneud hynny o fewn blwyddyn i'r mesurydd gael ei osod. Byddai hyn hefyd am ddim.

Os yw'n anymarferol neu'n rhy ddrud i osod mesurydd, rhaid i'r cwmni gynnig pris a aseswyd. Brasamcan yw hwn o faint o ddŵr y gallai cwsmer ei ddefnyddio pe byddent ar fesurydd. Cysylltwch â Dŵr Dyffryn Dyfrdwy i gael gwybodaeth am ei bris a aseswyd, gan fod y rhain yn amrywio o gwmni i gwmni.

Chwefror 2011